

## Arddangosfa

Gofynnwyd i ni roi sylw i arddangosfa hen luniau o ardal Eco'r Wyddfa sydd i'w chynnal yn Siop Menter Fachwen yn Llanberis rhwng 10.00 a 5.00 o'r gloch odydd Sadwrn nesaf, Ionawr 27.

Tybed a fydd yno luniau o rai o gapeli'r fro, yn arbennig y rhai sydd wedi cau erbyn hyn.

## Bocs bwyd

Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n cyfrannu at y Bocs Bwyd yn Capel Coch er budd Banc Bwyd Caernarfon.

Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n trefnu'r Banc Bwyd er mwyn helpu pobl sydd mewn trafferthion yng Nghaernarfon a'r ardal. Gellir rhoi bwydydd yn y bocs unrhyw adeg.

## Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am [gronyn.org](http://gronyn.org)

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Ionawr 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Ionawr 28

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

#### Chwefror 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Ionawr 28:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Rhagfyr 28:** Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Ionawr 22:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Ionawr 26:** Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 28:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Bydd y Gweinidog yn arwain Oedfa Fedydd am 2.00 o'r gloch a'r oedfa arferol am 5.00 o'r gloch.

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Ionawr 25:** Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 28:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Ionawr 28:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Ionawr 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

#### Ionawr 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

#### Chwefror 4

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Dim Oedfa



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 756: 21 Ionawr, 2018

## Cadwyni

Boed lew neu gi; boed yr ail ganrif ar bymtheg neu'r unfed ar hugain; yr un yw'r stori os na welwn ni'r cadwyni. Mewn un olygfa yn *Taith Y Pererin*, a gyhoeddwyd yn 1678, mae 'Cristion' yn nesáu at 'balas Prydferth' ond yn dychryn wrth weld dau lew o'i flaen. Cyn y gallai fynd heibio i'r llewod roedd rhaid iddo weld eu bod wedi eu clymu â chadwyni. Rwyf finnau wedi peidio â mynd at fwy nag un tŷ o weld ci rhyngof a'r drws ffrynt, er ei bod yn berffaith bosibl fod y ci hwnnw wedi ei glymu'n dynn wrth gadwyn. Ond heb weld y gadwyn, fyddwn i ddim yn mentro at y drws.

Cadwyni gwahanol iawn a welwyd yn nhŷ David a Louise Turpin yn Perris, California yr wythnos ddiwethaf. Bron na fyddem yn dweud mai stori ffug oedd hi gan mor erchyll yr hyn a wnaeth y rhieni hyn wrth garcharu eu tri phlentyn ar ddeg a'u hamddifadu o ryddid a gofal a bwyd a glendid. Roedd rhai o'r plant hyd yn oed wedi eu cadwyno wrth eu gwelyau. Trasedi pethau yw ei bod yn ymddangos na welodd cymdogion na theulu estynedig na neb arall y cadwyni hyn. A heb weld y cadwyni, welai neb reswm dros fentro at y drws.

Darlun o'r bywyd Cristnogol sydd gan John Bunyan yn *Taith Y Pererin*. Ac meddai, 'Yr oedd y llewod wedi eu cadwyno, ond nid oedd efe yn gweled y cadwyni'. Yno i brofi ffydd 'Cristion' oedd y llewod hyn. Ac fel y gallai 'Cristion' gredu y byddai'n ddiogel am

fod y llewod wedi eu cadwyno, gallwn ninnau gredu y byddwn yn ddiogel yn llaw Duw. Nid oes rhaid i ni ofni, gan fod pob gelyn a pherygl a wynebwn wedi eu cadwyno gan y Brenin Mawr. Ond weithiau, welwn ni mo'r cadwyni.

Fedwrn ni ddim cyfeirio at David a Louise Turpin heb wynebu'r ffaith gas a chywilyddus eu bod, yn ôl y sôn beth bynnag, yn arddel y Ffydd Gristnogol. Duw a wŷr beth y mae'r ddau yn ei gredu; a Duw yn unig a wŷr pam y bu i rieni sy'n honni credu yn yr Arglwydd Iesu gam-drin eu plant yn y fath fodd.

Mae'n bosibl wrth gwrs nad ydynt yn credu o gwbl ac mai ffug a di-sail yw eu proffes. Nid y Turpins fyddai'r cyntaf i honni eu bod yn credu yng Nghrist a hwythau mewn gwirionedd heb wybod unrhyw beth am edifeirwch nac ymddiriedaeth yn y Gwaredwr nac ufudd-dod iddo. Ond gwaetha'r modd, nid y nhw chwaith fyddai'r cyntaf i gyflawni pob math o erchyllterau, na'r cyntaf i weithredu'n gwbl groes i lwybr cariad yr Efengyl er iddynt gredu yn yr Arglwydd Iesu. Nid bod hynny wrth gwrs yn esgus o fath yn y byd am yr hyn a wnaethant i'w plant.

Beth bynnag y gwir, y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw lles y plant sydd wedi dioddef ers blynyddoedd. Gweddiwn drostynt, a thros bawb a fydd yn ceisio eu helpu. A'r un pryd, am na welwn ni'r cadwyni, gweddiwn hefyd dros bawb a all fod yn dioddef yn ein plith ninnau, heb i neb weld eu cur a'u poen.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



‘Arglwydd, buost yn amddiff-  
ynfa i ni ymhob cenhedlaeth.  
<sup>2</sup>Cyn geni'r mynyddoedd, a **BEIBL BYW**  
chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o drag-  
wyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd  
Dduw ... Dychwel, O ARGLWYDD. Am  
ba hyd? Trugarha wrth dy weision.  
Digona ni yn y bore â'th gariad, inni gael  
gorfoleddu a llawenhau ein holl ddydd-  
iau. Rho inni lawenydd gynifer o ddydd-  
iau ag y blinaist ni, gynifer o flynydd-  
oedd ag y gwelsom ddrygyf. Bydded dy  
weithredoedd yn amlwg i'th weision, a'th  
ogoniant i'w plant. Bydded trugaredd yr  
Arglwydd ein Duw arnom; llwydda  
waith ein dwylo inni, llwydda waith ein  
dwylo’ (Salm 90:1–2, 13–17).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00  
o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams,  
Llanfairfechan. Bydd yr Ysgol Sul am  
11.15 o'r gloch. NI FYDD oedfa heno  
am fod y Parchg Geraint Roberts, a oedd  
i bregethu yma yn dioddef o'r ffliw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch a chynhelir Oedfa Weddi  
dan arweiniad rhai o'r aelodau am 5.00  
o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r  
gloch gan y Parchg Dafydd Ll. Hughes,  
Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 10.00  
o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

## Oedfa Fedydd

Cynhelir Oedfa Fedydd yng nghapel Car-  
mel, Llanllechid am 2.00 o'r gloch y Sul  
nesaf, Ionawr 28. Bydd hon yn oedfa  
ychwanegol, a bydd ein hoedfa arferol  
am 5.00 o'r gloch. Gobeithio y gall rhai  
ohonoch ddod am 2.00 o'r gloch hefyd i  
fod yn dystion i sacrament y Bedydd.

## Cyfarfod Chwarter

Bydd Annibynwyr Gogledd Arfon yn  
cynnal eu Cyfarfod Chwarter nesaf yng  
nghapel Tabernacl, Llanrwst wythnos i  
nos Fercher (Ionawr 31) am 7.00 o'r  
gloch.

Yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod bydd Mr  
Robert Morris, Penygroes yn traddodi ei  
ddarlith, ‘Daucanmlwyddiant Diwygiad  
Beddgelert, 1817’. Roedd y Diwygiad  
hwn, a gychwynnodd yn Nanhoron, Llŷn  
cyn cyrraedd Beddgelert, yn un nerthol  
iawn, a bydd yn dda i ni glywed yr hanes  
am ei ddechreuadau a'i ddyllanwad yn

ardal Beddgelert ac mewn cylch  
changach.

Bydd cyfarfod arferol y Cyfundeb yn  
dilyn y ddarlith. Ond os nad ydych  
eisiau aros am y Cyfarfod Chwarter  
cyfan, bydd croeso i chi ddod erbyn 7.00  
o'r gloch ar gyfer y ddarlith a diflannu  
wedyn os mynnwch.

## Cydymdeimlo

Bu farw Mr Geraint Jones, 31 Ffordd Tan  
y Bwlch, Llanllechid yn 58 mlwydd oed  
yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul diwethaf,  
Ionawr 15. Bu yn yr ysbyty ers deng  
wythnos ar ôl cael ei daro'n wael yn  
annisgwyl. Cydymdeimlwn â'i wraig, ei  
ferch Danielle a'i fab Michael, a'i fam  
Mrs Betty Jones, 11 Ffordd Tan Y Bwlch  
yn eu colled fawr. Cynhelir ei angladd  
yng nghapel Carmel, Llanllechid am 1.00  
o'r gloch bawn yfory, ddydd Llun,  
Ionawr 22.

## CIC

Roedd CIC nos Wener yng ngofal Jac  
Newbould o Goleg y Bala. Diolch iddo  
am ddod draw atom, a diolch i Catrin am  
drefnu.

Roedd yn braf gweld criw da yno echnos,  
yn cynnwys rhai nad oedd wedi bod yn  
CIC o'r blaen wrth i'r ieuencid wahodd  
eu ffrindiau atynt.

## Cwrs Ieuencid Blwyddyn 7–11

Bydd y Cwrs Ieuencid nesaf yng  
Ngholeg y Bala ar ddiwedd gwyliu  
hanner tymor yr ysgolion, o nos Wener  
hyd ddydd Sul, Chwefror 16–18.

Mae amryw o ieuencid Llanberis yn  
awyddus i fynd yno, a bydd croeso i  
ieuencid yr Ofalaeth gyfan. Holwch y  
Gweinidog am fwy o fanylion am gost y  
cwrs a threfniadau teithio ac ati.

## Agor y Llyfr

Stori Jona yn ffoi rhag mynd i Ninefe  
oedd gan griw ‘Agor y Llyfr’ yn Ysgol  
Gwaun Gynfi fore Gwener. Diolch yn  
fawr iawn i Helen Sutherland, Eirlys  
Hughes (Porth y Gogledd) a Catrin  
Hampton am eu gwaith.

Byddwn yn mynd i'r Ysgol eto ddydd  
Gwener, Chwefror 9. Ac unwaith eto,  
cofiwch y byddem yn falch iawn o gael  
aelodau eraill i'r tîm. Soniwch wrth un  
ohonom os oes gennych ddiddordeb yn y  
gwaith hwn.

## Cronfa Gronyn

Yn ôl yr arfer, rhown sylw ar ddechrau  
blwyddyn i Gronfa *Gronyn* sy'n help i  
gyhoeddi *Gronyn* o Sul i Sul. Rydym yn  
ddiolchgar am bob rhodd a dderbyniwn  
at gostau cynhyrchu'r daflen wythnosol.

Os cofiwch, yr ydym wedi pwysleisio o'r  
cychwyn cyntaf nad oes angen i neb dalu  
am *Gronyn* gan mai rhan o'n gwasanaeth  
i'n haelodau a'n cenhadaeth o fewn ein  
cymdogaeth ydyw. Ond o'r cychwyn  
bron mynegodd rhai ohonoch awydd i  
gyfrannu at y costau. Gellir gwneud  
hynny unrhyw bryd wrth gwrs er mai ar  
ddechrau'r flwyddyn yn unig y tueddwn i  
dynnu sylw at y Gronfa.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae rhai ohonoch  
yn derbyn copi electroneg ohono bob  
wythnos, ac mae modd i unrhyw un ei  
ddarlenn unrhyw bryd ar wefan yr  
Ofalaeth. Ond mae'r rhan fwyaf  
ohonoch wrth gwrs yn dal i dderbyn eich  
copi papur bob wythnos. Ein gobaith yw  
bod cymaint â phosibl yn ei dderbyn; ac  
felly rhowch wybod i ni os gwyddoch am  
rywun arall sy'n awyddus i'w gael.

Gellir anfon rhoddion i Gronfa Gronyn at  
Drysorydd yr Ofalaeth trwy law'r  
Gweinidog neu unrhyw un o swyddogion  
yr eglwysi.